"DATGANOLI"
Darlledwyd ar 27 Medi 2007

YMDDIHEURIAD I'R ARGLWYDD MORRIS O ABERAFAN CF

Ar 27 Medi 2007, darlledwyd rhaglen ar S4C yn y gyfres ddogfen "Datganoli" yn ymwneud â hanes datganoli yng Nghymru.

Cyflwynodd y rhaglen farn am darddiad y setliad datganoli a oedd wedi ei gynnwys yn Neddf Cymru 1978.

Yn dilyn y darllediad, y mae'r Arglwydd Morris wedi cwyno wrth S4C am y rhaglen.

Yr Arglwydd Morris oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru adeg refferendwm datganoli 1979 ac yn ystod cyfnod taith Deddf Cymru 1978 drwy'r Senedd. Darlledwyd cyfweliad gyda'r Arglwydd Morris yn ystod y rhaglen; fodd bynnag ni roddwyd cyfle i'r Arglwydd Morris i ymateb i'r brif thesis a gyflwynwyd yn ystod y rhaglen.

Yn dilyn ystyried y g□yn, rydym yn derbyn bod yr Arglwydd Morris wedi ei drin yn annheg yn ystod y rhaglen, ac yn benodol bod y rhaglen wedi torri Rheol 5.9 a Rheol 7.11 Côd Darlledu Ofcom.

> Nid oedd y rhaglen yn cynnwys enghreifftiau digonol o safbwyntiau gwahanol yn ymwneud â phrif thesis y rhaglen, yn groes i ofynion Rheol 5.9; a
>
> Ni roddodd y rhaglen gyfle addas ac amserol i ymateb i'r thesis yn y rhaglen yn ymwneud â tharddiad y setliad datganoli, yn groes i ofynion Rheol 7.11.

Rydym yn cydnabod bod yr elfennau hyn o'r rhaglen yn annheg â'r Arglwydd Morris.

Hoffai S4C ymddiheuro yn ddidwyll i'r Arglwydd Morris am unrhyw ofid achoswyd iddo o ganlyniad i ddarllediad y rhaglen.